



Hen Gwestiynau Arholiad
Goleddu Ffyrdd a Thraciau


1. Canfyddwch y buanedd pan na fyddai car, màs 1000kg, sy'n symud mewn cylch llorweddol gyda radiws 100m ar ffordd ar oled ar ongl 5° , yn profi unrhyw rym ochrol.




2. Canfyddwch ongl goled awyren sy'n troi gyda buanedd 50ms^{-1} ar gylch gyda radiws 120m yn y fath fodd fel, heblaw am ddisgyrchiant, nad oes grym yn gweithredu ar yr awyren heblaw'r codiant sy'n gweithredu yn berpendicwlar i'r adenydd.



3. Canfyddwch faint y mae angen codi'r rheilen allanol fel na fydd tryc rheilffordd sy'n symud gyda buanedd cyson 15ms^{-1} ar gylch llorweddol gyda radiws 300m yn rhoi grym ochrol ar y rheilen. Y pellter rhwng y rheiliau yw 1.48m.



4. Mae car, màs 1200kg, yn teithio ar fuanedd cyson o 25ms^{-1} mewn cylch llorweddol gyda radiws 150m ar drac ar oled ar ongl 20° i'r llorwedd. Canfyddwch y grym ochrol ar y car.



5. Canfyddwch y buanedd mwyaf lle byddai'r mudiant yn yr enghraifft flaenorol yn bosibl heb i'r car lithro i fyny'r goled, os yw'r cyfernod ffrithiant rhwng y car a'r goled yn 0.5.